OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 190 (Cy.35)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadaeth Ysgolion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2011

*Gwnaed - - - - 28 Ionawr 2011*
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 1 Chwefror 2011*
*Yn dod i rym - - 1 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 28(3), 28(8), 29(3), 29(7) 31(3), 31(8), 34, 35, 138(7) ac (8), a 144 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, a pharagraff 7 o Atodlen 6, paragraffau 5 a 12 o Atodlen 7 a pharagraff 2 o Atodlen 8 iddi(**1**), a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 113A(9) a 152(5) a (6) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 a pharagraffau 20(2), 22, 28(2), 30, 39(2), 40 a 41 o Atodlen 7 a pharagraff 1 o Atodlen 7A iddi(**2**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadaeth Ysgolion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Mawrth 2011.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1998 p.31. Diwygiwyd adrannau 28 a 29 ac Atodlenni 6 ac 8 fel eu bod yn gymwys o ran Cymru yn unig gan baragraffau 18, 20, 33, 34 o Atodlen 3, a Rhan 3 o Atodlen 18 i Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40). Diwygiwyd Atodlen 7 fel ei bod yn gymwys o ran Cymru yn unig gan baragraff 14 o Atodlen 12 i Ddeddf Addysg 2005 (p.18). Mewnosodwyd adran 28(1)(aa) a 28(1)(d) gan adran 154 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32). Diwygiwyd adran 28(2)(a) gan adran 64 o Ddeddf Addysg 2005. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) 2000 p.21. Mewnosodwyd adran 113A gan Ddeddf Addysg 2002. Diddymwyd is-adran (9)(f) o'r adran honno gan baragraff 49 o Atodlen 6 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p.22). Diwygiwyd Atodlen 7 gan Atodlen 5 i Ddeddf Addysg 2005. Mewnosodwyd Atodlen 7A gan Atodlen 9 i Ddeddf Addysg 2002. Diwygiwyd paragraff 1A o Atodlen 7 gan baragraff 53 o Atodlen 6 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009. Rhoddwyd cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Neddf Dysgu a Medrau 2000 yn lle cyfeiriadau at Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant gan Orchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S. 2005/3238 (Cy.243)). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999**

**2.** Diwygir Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999(**3**) fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 5—

(i) o flaen is-baragraff (a) o baragraff (2) mewnosoder—

"(za) on a school day and not fewer than fifteen school days before the end of a school term;";

(ii) o flaen is-baragraff (d) o baragraff (3) mewnosoder—

"(zd) on a school day and not fewer than fifteen school days before the end of a school term;";

(iii) o flaen is-baragraff (a) o baragraff (4) mewnosoder—

"(za) on a school day and not fewer than fifteen school days before the end of a school term;";

(iv) o flaen is-baragraff (a) o baragraff (5) mewnosoder—

"(za) on a school day and not fewer than fifteen school days before the end of a school term;";

(b) yn rheoliad 7—

(i) ym mharagraff (2) yn lle'r geiriau ar ôl "(as the case may be)", rhodder "within the period of one month after the date of publication of the proposals."; a

(ii) ym mharagraff (3) yn lle'r geiriau ar ôl "Schedule 6 to the Act within", rhodder "the period of two weeks after the end of the objection period.";

(c) yn Atodlen 5 yn lle'r addasiad i baragraff 7 o Atodlen 6 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 rhodder—

"That paragraph shall have effect as if—

in sub-paragraph (1) for "section 28, 29 or 31" there were substituted "paragraph 10(4)";

in sub-paragraph (2)(a) for "such period as may be prescribed" there were substituted "one month after the date on which the proposals were published";

in sub-paragraph (2)(b) for "such period as may be prescribed" there were substituted "two weeks after the end of the objection period";

in sub-paragraph (3) for "such period as may be prescribed" there were substituted "one month after the date on which the proposals were published"".

**Arbedion o ran Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999**

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys o ran unrhyw gynnig a gyhoeddwyd—

(a) cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym; a

(b) y mae Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 yn gymwys iddo.

(2) Mae Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 yn parhau i fod yn gymwys i'r cynnig hwnnw fel pe na bai'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan y Rheoliadau hyn wedi eu gwneud.

(**3**) O.S. 1999/1671 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/908 (Cy.91), O.S. 2006/173 (Cy.24) ac O.S. 2010/1142 (Cy.101).

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) 1999**

**4.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) 1999(**4**) fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 5—

(i) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Any proposals for the establishment of a school must be published—

(a) on a school day and not fewer than fifteen school days before the end of a school term; and

(b) in at least one newspaper circulating in the area proposed to be served by the school.";

(ii) o flaen is-baragraff (a) o baragraff (3) mewnosoder—

"(za) on a school day and not fewer than fifteen school days before the end of a school term;";

(iii) o flaen is-baragraff (a) o baragraff (4) mewnosoder—

"(za) on a school day and not fewer than fifteen school days before the end of a school term;"; a

(iv) o flaen is-baragraff (a) o baragraff (5) mewnosoder—

"(za) on a school day and not fewer than fifteen school days before the end of a school term;";

(b) yn rheoliad 8—

(i) ym mharagraff (2) yn lle'r geiriau ar ôl "(as the case may be)", rhodder "within the period of one month after the date of publication of the proposals."; a

(ii) ym mharagraff (3) yn lle'r geiriau ar ôl "Schedule 6 to the Act within", rhodder "the period of two weeks after the end of the objection period."; ac

(c) yn Atodlen 4 yn lle'r addasiad i baragraff 7 o Atodlen 6 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 rhodder—

"That paragraph shall have effect as if—

in sub-paragraph (1) for "section 28, 29 or 31" there were substituted "paragraph 10(4)";

in sub-paragraph (2)(a) for "such period as may be prescribed" there were substituted "one month after the date on which the proposals were published";

in sub-paragraph (2)(b) for "such period as may be prescribed" there were substituted "two weeks after the end of the objection period";

in sub-paragraph (3) for "such period as may be prescribed" there were substituted "one month after the date on which the proposals were published"".

**Arbedion o ran Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) 1999**

**5.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys o ran unrhyw gynnig a gyhoeddwyd—

(a) cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym; a

(b) y mae Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) 1999 yn gymwys iddo.

(**4**) O.S. 1999/1780 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/3710 (Cy.306), O.S. 2005/3238 (Cy.243), O.S. 2009/48 (Cy.16) ac O.S. 2010/1142 (Cy.101).

(2) Mae Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) 1999 yn parhau i fod yn gymwys i'r cynnig hwnnw fel pe na bai'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan y Rheoliadau hyn wedi eu gwneud.

**Diwygio Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001**

**6.** Diwygir Atodlen 1 i Reoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001(**5**) fel a ganlyn—

(a) ar ôl "(b) be published" yn yr adran 28(3) a addaswyd yn Nhabl 3 yn Rhan 1 ac yn yr adran 28(3) a addaswyd fel y'i gosodir yn Rhan 2, mewnosoder "on a school day and not fewer than 15 school days before the end of a term."; a

(b) yn lle'r geiriau ar ôl "Wales" yn y paragraff 7(3) a addaswyd o Atodlen 6 yn Nhabl 3 yn Rhan 1 a'r paragraff 7(3) a addaswyd o Atodlen 6 fel y'i gosodir yn Rhan 2 rhodder "within the period of one month after the date of publication of the proposals.".

**Arbedion o ran Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001**

**7.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys o ran unrhyw gynnig a gyhoeddwyd—

(a) cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym; a

(b) y mae Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001 yn gymwys iddo.

(2) Mae Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001 yn parhau i fod yn gymwys i'r cynnig hwnnw fel pe na bai'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan y Rheoliadau hyn wedi eu gwneud.

**Diwygio Rheoliadau Cynigion ar Drefniadaeth Ysgolion gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2004**

**8.** Diwygir Rheoliadau Cynigion ar Drefniadaeth Ysgolion gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2004(**6**) fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 5—

(i) o flaen is-baragraff (a) o baragraff (2) mewnosoder—

"(za) ar ddiwrnod ysgol a heb fod yn llai na phymtheng niwrnod ysgol cyn diwedd tymor ysgol;"; a

(ii) o flaen is-baragraff (a) o baragraff (3) mewnosoder—

"(za) ar ddiwrnod ysgol a heb fod yn llai na phymtheng niwrnod ysgol cyn diwedd tymor ysgol;";

(b) yn rheoliad 6 yn lle "dau fis" rhodder "mis";

(c) yn rheoliad 12—

(i) o flaen is-baragraff (a) o baragraff (2) mewnosoder—

"(za) ar ddiwrnod ysgol a heb fod yn llai na phymtheng niwrnod ysgol cyn diwedd tymor ysgol;"; a

(ii) o flaen is-baragraff (a) o baragraff (3) mewnosoder—

"(za) ar ddiwrnod ysgol a heb fod yn llai na phymtheng niwrnod ysgol cyn diwedd tymor ysgol;";

(ch) yn Atodlen 4—

(**5**) O.S. 2001/2678 (Cy.219) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/2916 (Cy.213) ac O.S. 2010/1142 (Cy.101).
(**6**) O.S. 2004/1576 (Cy.162) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3238 (Cy.243) ac O.S. 2010/1142 (Cy.101).

(i) o flaen paragraff (i) o is-baragraff (a) o baragraff 2 mewnosoder—

"(zi) ar ddiwrnod ysgol a heb fod yn llai na phymtheng niwrnod ysgol cyn diwedd tymor ysgol;"; a

(ii) o flaen paragraff (i) o is-baragraff (b) o baragraff 2 mewnosoder—

"(zi) ar ddiwrnod ysgol a heb fod yn llai na phymtheng niwrnod ysgol cyn diwedd tymor ysgol;".

**Arbedion o ran Rheoliadau Cynigion ar Drefniadaeth Ysgolion gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2004**

**9.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys o ran unrhyw gynnig a gyhoeddwyd—

(a) cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym; a

(b) y mae Rheoliadau Cynigion ar Drefniadaeth Ysgolion gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2004 yn gymwys iddo.

(2) Mae Rheoliadau Cynigion ar Drefniadaeth Ysgolion gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2004 yn parhau i fod yn gymwys i'r cynnig hwnnw fel pe na bai'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan y Rheoliadau hyn wedi eu gwneud.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

28 Ionawr 2011

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

(a) Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999,

(b) Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) 1999,

(c) Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001, ac

(ch) Rheoliadau Cynigion ar Drefniadaeth Ysgolion gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2004,

fel bod unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol ei gyhoeddi yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a dim llai na phymtheng niwrnod ysgol cyn diwedd tymor ysgol.

Unwaith y bydd yr hysbysiad wedi ei gyhoeddi, mae'r amser ar gyfer gwrthwynebiadau i'r cynnig yn cael ei ddiwygio fel bod rhaid i wrthwynebiadau fod wedi dod i mewn o fewn mis.

Caiff Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 a Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) 1999 eu diwygio ymhellach fel bod rhaid i'r awdurdod lleol, os mai awdurdod lleol sy'n cyhoeddi'r cynigion, anfon copïau at Weinidogion Cymru o'r gwrthwynebiadau a sylwadau'r awdurdod lleol arnynt o fewn y cyfnod o bythefnos ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwrthwynebiadau ddod i ben.